# Cyngor Tref Porthmadog.

Cofnodion cyfarfod y Cyngor Tref a gynhaliwyd am 6.30 y.h. Nos Fawrth, Chwefror 13, 2024 yn y Ganolfan, Porthmadog

**Cof; - 0102/2024** - Presennol. Cynghorwyr: Cadeirydd - Aled Griffydd, Dirprwy Cadeirydd Alwyn Gruffydd, Gwilym Jones, Dr Melfyn Edwards, Michael Roberts, John Gwynedd Roberts.

Clerc; Eric Price.

…………………….

**Cof; - 0202/2024**- Ymddiheuriadau. Cyng.Connor Westwood.

…………………………..

**Cof;-0302/2024** - Datgan diddordeb.
Dim.

………………………………..

**Cof;-0402/2024** - Aelodau'r cyhoedd yn bresennol.

Bethan Lane.

. ……………………………………………………………………

**Cof;-0502/2024** - Materion Cyfansoddiadol a Staff – Cadeirydd Aled Griffith - newid strwythur rhagleni`r Cygnor.

a [Bydd person yn sefyll wrth ofyn i gael siarad ac wrth siarad (ac eithrio pan mae gan berson anabledd neu os yw'n debyg o ddioddef anghysur)] NEU [Bydd person yn codi ei law/llaw wrth ofyn i gael siarad ac yn sefyll wrth siarad (ac eithrio pan mae gan berson anabledd neu os yw'n debyg o ddioddef anghysur)]. Gall cadeirydd y cyfarfod benderfynu ar unrhyw adeg caniatáu i berson barhau i eistedd wrth siarad.
Derbyn y wybodaeth.

b. Bydd person sy'n siarad mewn cyfarfod yn cyfeirio ei sylwadau at gadeirydd y cyfarfod.
Derbyn.

c. Cael trafodaeth ar; polisi ddi bapur y Cyngor mae gan i 5 Cynghorwr ofyn i`r Clerc rhoi copi caled o rhaglen ar itemau trwy flwch post eu cartref.
Bu i'r Clerc egluro'r angen i fod yn fwy proffesiynol wrth gyfathrebu`n mewnol a rhannu data. Bydd angen e-bost Cyngor Tref i bob Cynghorydd a chyfrif busnes yn lle un preifat i'r Cyngor Tref. Penderfynwyd i un Cynghorydd barhau i gael y dogfennau wedi ei hanfon. Mae yna fwriad gan y Clerc i bob Cynghorydd gael gliniadur Cyngor Tref bydd yn cael ei osod i'w wneud yn haws ei ddefnyddio.

d. Clerc yn rhannu, Canllaw'r Cynghorydd Da ar gyfer Cynghorwyr Cymuned a Thref Cyhoeddwyd gyntaf: 10 Mehefin 2022 Diweddarwyd diwethaf: 10 Mehefin 2022. Derbyn y gwybodaeth.

……………………………………….

**Cof;-0602/2024** - Trafod i`r Cynghorydd June Jones cymryd sedd ar Gyngor Tref Porthmadog.

Penderfynu i`r Clerc ofyn i`r Cynghorydd Sir June Jones yrru e-bost parthed cymryd sedd ar y Cyngor Tref. Wedyn bydd penderfyniad.

…………………………………………………

**Cof;-0702/2024** - . Cadarnhau cofnodion cyfarfod y Cyngor Mis Ionawr 2024.
Derbyn.

………………………………..

**Cof;-0802/2024** - Derbyn cofnodion cyfarfod is bwyllgor ariannol ac eiddo.
Derbyn.

……………………………………….

**Cof;-0902/2024 -** Derbyn Polisïau newydd Iechyd a Diogelwch, Cydraddoldeb a Chyfryngau cymdeithasol. Derbyn.

…………………………………….

**Cof;-1002/2024** - Derbyn Polisi Bioamrywiaeth/amgylchedd. Derbyn.

…………………………….

**Cof;-1102/2024** - Derbyn Asesiad risg cyllid. Derbyn.

…………………

**Cof;-1202/2024** - "National Grid" Atgyfnerthu'r cysylltiad rhwng Pentir a Thrawsfynydd. Cadeirydd Aled Griffith.
Bydd y gwaith yn dechrau ym mis Chwefror 2025. Ni fydd y lle ar gael am dair blynedd wedyn oherwydd y gwaith. Bydd ymweliad safle lle gall Cynghorwyr gymryd y cyfle i drafod beth fydd "National Grid" yn fodlon ei roi ar waith ar gyfer plant a phobl ifanc yn ystod y cyfnod hwn.

...............................

**Cof;-1302/2024** - Ceisiadau cynllunio
a) Rhif Cais : C24/0037/44/LL
Lleoliad : Moelwyn, 64 Heol Yr Wyddfa, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9DF
Bwriad: Newid defnydd islawr yr eiddo ar gyfer creu fflat hunan cynhaliol.
Dim gwrthwynebiad.

………………………

**Cof;-1402-2024** - Trefi Smart. Oes Wi Fi allanol ym Mhorthmadog? Os oes pwy sydd yn cael y data?
Dim gwybodaeth gan y Cynghorwyr. Penderfynu i`r Clerc ofyn i Fenter Môn am wybodaeth.

……………………..

**Cof;-1502/2024** - Cynnig Cyng. Gwilym Jones - Bod y Cyngor Tref yn cytuno hefo penderfyniad Cyngor Gwynedd i adael i 'r prosiect cyfnewid llyfrau sy'n defnyddio'r Lloches Bws yn Borth y Gest i barhau.
Cytuno. Clerc i lythyru swyddog priodol.

………………………

**Cof;-1602/2024** - Fel mater i'w godi - goleuadau traffig - goleuadau coch - yn cael eu gosod yn ardal Porthmadog weithiau ar benwythnosau prysur yn y flwyddyn heb unrhyw waith yn cael eu gwneud wedyn am ddyddiau. Cyng. Llywelyn Rhys.
Symyd i`r cyfarfod nesaf.

…………………..

**Cof;-1702/2024** - Pwy sydd yn cynyrchioli Cyngor Tref yn bwyllgor ardal Un Llais?
Cynghorwyr Carol Hayes a Alwyn Gruffydd.

…………….

**Cof;-1802/2024** - Cynllun Finyls – oes adeilad angen Finyl yn y ffenest?
Penderfynu bydd siopa Best Wishes, Bargain Booze a Shoe Zone yn elwa.

……………………
**Cof;-1902/2024** - Gwybodaeth ar ap SCRIBE. Cyng.. Gwilym Jones.
Clerc i gael costau defnyddio'r ap cyn bydd penderfyniad terfynol.
……………….
**Cof;-2002/2024** - Gwybodaeth yn dilyn cyfarfod gyda Chyngor Gwynedd a Savills. Cadeirydd Aled Griffith.
Mae`r drafft allan sydd angen ambell i addasiad. Roedd y Cyngor yn annog cydweithio rhwng datblygiad Canol y Dref ac ardal Llechi.
...........................
**Cof;-2102/2024** - Diweddariad ar gais Plac Porffor. Symud i gyfarfod Mis Mawrth.
………………………..
**Cof;-2202/2024** - Cais busnes 'mobile sauna' ar gyfer traeth Morfa Bychan. Cyngor Gwynedd yn diolch am ymateb Cyngor Tref Porthmadog i`r cais ar benderfyniad i wrthod.
Derbyn.
………………
**Cof;-2302/2024** - Ymateb Cyngor Gwynedd parthed; Iard newydd i gadw bysiau cludiant cyhoeddus sydd wedi cael ei greu ar faes parcio'r dref ger y Ganolfan Hamdden. Doedd dim angen cais cynllunio.
Gan bod lle parcio i 8 o fysiau cyffredin wedi ei golli bu penderfyniad i`r Clerc ofyn am gael y llefydd yma yn ol.

…………………..
**Cof;-2402/2024** - Strategaeth Arwyddo Arwyddion cyfeirio
a) 'fingerposts' – arwyddion bychan sydd o fewn y cymunedau yn cyfeirio pobl at amwynderau/atyniadau lleol. Nid yw'r rhain yn cynnwys arwyddion brown a gwyn.
Y Cyngor o'r farn bod digon o arwyddion yn y dref ac mae newid a chywiro rhai sydd yn bresennol sydd angen.

b) Arwyddion Safle Treftadaeth y Byd – arwyddion sydd yn dynodi eich bod yn cyrraedd ardal y Safle Treftadaeth y Byd, rhagwelir lleoli rhain ar ffyrdd mynediad y trefi a phentrefi.
Fe fydd briff yn cael ei osod ar wefan Gwerthwch i Gymru i gomisiynu cwmni arbenigol i greu strategaeth arwyddo ar gyfer y trefi a phentrefi uchod. Fel rhan o'r gwaith hwn, bydd y cwmni yn cysylltu â chi fel cynrychiolwyr lleol er mwyn gwybod am yr amwynderau/atyniadau lleol sydd angen eu cyfeirio atynt fel rhan o'r cynllun. Fe fydd y comisiwn hefyd yn gwneud argymhellion ar y lleoliad mwyaf priodol ar gyfer arwyddion Safle Treftadaeth y Byd ar gyfer pob tref / pentref yn dilyn ymgynghoriad gyda chi.
Disgwyl i`r cwmni gysylltu ar Gyngor.
………………………………
**Cof;-2502/2024** - Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021: Canllawiau Statudol ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref. Pŵer cymhwysedd cyffredinol. Mae modd i unrhyw Gyngor anelu at hyn.
Oherwydd y canllawiau rhagweld bydd yn anodd i unrhyw Gyngor gael Pŵer cymhwysedd cyffredinol.
………………………
**Cof;-2602/2024** - Cais am nawdd Y Ganolfan.
Penderfynu gofyn i rai o bwyllgor y Ganolfan ddod i gwrdd ar Gyngor 6 30, Mawrth 12 i drafod cofnodion eu cyfarfod olaf.
…………………

**Cof;-2702/2024** - Trafod a derbyn swydd disgrifiad Clerc tan hyfforddiant.
Clerc i wneud ychydig o newidiadau.
………………………
**Cof;-2802/2024** - Er gwybodaeth - SGYRSIAU IECHYD LLEOL 2024
Mae Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr yn cynnal cyfres o ddigwyddiadau cyhoeddus ar hyd a lled Gogledd Cymru drost y flwyddyn i ddod ac erfynnaf arnoch fel cymunedau i gymeryd y cyfle i gyfarthrebu gyda swyddogion ac Aelodau Bwrdd Betsi gyda'ch pryderon.
Buaswn yn ddiolchgar os y gallwch fel Cynghorau ddosbarthu gwybodaeth ymysg eich cymunedau am y cyfarfodydd hyn.
Mae cyfarfodydd pellach i gael eu cynnal ac gellwch cael manylion pellach gan holi gwefan Betsi, gan rhoi y geiriau "Sgyrsiau Iechyd lleol 2024" i fewn i'r blwch holi.
MAE Y CYFARFOD NESA AR

DYDD LLUN 11fed o Fawrth 2024 yn CANOLFAN CYMUNEDOL COED MAWR, BANGOR . 13.00 - 17.00
Derbyn y gwybodaeth a bydd yn agored i unrhyw Gynghorwr ymuno.

**Cof;-2902/2024**. MATERION ARIANNOL :

**Derbyniadau :**

| | | |
|---|---|---|
| H.S.B.C. | Llog Banc Tachwedd / Rhagfyr 2023 | £ 56.88 |
| | | |

**Derbyn**
**Biliau i'w talu :-**

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1 | Costau gweinyddu | LLinell Ffôn a Wê Rhagfyr 2023 | £ |
| 2 | Costau gweinyddu | Ionawr 2024 | £ 951.96 |
| 3 | Cyllid a Thollau ei Fawrhydi | Treth Incwm cyflog Clerc Ionawr 2024 | £ 237.80 |
| 4 | Y Ganolfan 1415 Tachwedd | cyfarfodydd | £ 100 |
| 5 | Y Ganolfan 1416 Rhagfyr | cyfarfodydd | £40 |
| 6 | Gareth Griffiths | Gosod a tynnu goleuadau coed nadolig | £1470 |
| 7 | Y Wylan | Hysbyseb Tachwedd | £20 |
| 8 | Y Wylan | Hysbyseb Rhagfyr | £40 |
| 9 | Y Ganolfan cyfarfodydd Ionawr 1434 | cyfarfodydd | £40 |
| 10 | Y Ganolfan Tachwedd 1428 | Y neuadd x3 | £75 |
| 11 | Costau gweinyddu | Swm blynyddol | £300 |
| | | | |

Derbyn

Bydd cyfarfod nesaf Cyngor Tref Porthmadog yn y Ganolfan, Fawrth 12 am 6.30 y.h.

Eric Price
(Clerc)

*(Clerc/Clerk), Garn View, Upper Ala Road, Pwllheli, Gwynedd,LL53 5RF*
*Ffôn / Tel : 07890988173*

*E-bost/ e-mail : clerccyngtreport@gmail.com*